**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 22 Tachwedd 2021 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | D W Helliwell | P K Jones |
| L R Jones | K M Roberts | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Richards

---

**23 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**24 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

**25 Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol.**

Darparodd Anthony Richards ddiweddariad ar lafar i'r Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chynnydd y Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol.

Amlinellodd fod y polisi ar ffurf ddrafft ond bod angen gwaith pellach gydag adrannau eraill a phartneriaid yn y trydydd sector cyn y gellir ymgynghori'n gyhoeddus arno. Byddai'r ymgynghoriad am o leiaf 4 wythnos a byddai'n cael ei hysbysebu ar wefan y cyngor drwy ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a byddai'r holl Aelodau'n cael eu hannog i hyrwyddo'r polisi drafft i grwpiau a sefydliadau lleol yn eu wardiau a'u cymunedau.

Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a choladu unrhyw sylwadau ac adborth, byddai Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Tîm Mynediad at Wasanaethau i'w gymeradwyo.

Yn dilyn hyn, byddai'r adroddiad wedyn yn cael ei gyflwyno unwaith eto i'r PDP i'w drafod a'i gymeradwyo, cyn ei atgyfeirio at Aelod y Cabinet.

**26 Polisi Dyled Gorfforaethol.**

Darparodd Anthony Richards ddiweddariad ar lafar i'r Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chynnydd y Polisi Dyledion Corfforaethol.

Amlinellodd fod y gweithdy a gynhaliwyd ym mis Hydref gydag aelodau a staff o'r adrannau Rhenti, Tai a Threth y Cyngor wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Bydd angen mireinio'r polisi drafft ymhellach a chynnwys mewnbwn gan adrannau eraill cyn y gellir ymgynghori'n gyhoeddus arno.

Yn unol â'r drafodaeth ar yr eitem flaenorol, byddai'r ymgynghoriad am o leiaf 4 wythnos a byddai'n cael ei hysbysebu ar wefan y cyngor, drwy ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a byddai'r holl Aelodau'n cael eu hannog eto i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori a choladu unrhyw sylwadau ac adborth, byddai Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Tîm Mynediad at Wasanaethau i'w gymeradwyo.

Unwaith eto, byddai'r adroddiad wedyn yn cael ei gyflwyno unwaith eto i'r PDP i'w drafod a'i gymeradwyo, cyn ei atgyfeirio at Aelod y Cabinet.

**27 Cynllun Gwaith 2021-2022.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2021-2022 ar lafar.

Amlinellodd y gall fod angen aildrefnu'r ddau adroddiad a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr ar gyfer y flwyddyn newydd, a nododd y byddai adroddiad ar y Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy drafft yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf i'w drafod.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys diwygiedig yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.51 pm

**Cadeirydd**